

DARPL

Diversity and Anti-Racist Professional Learning

Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

Creu Diwylliant Gwrth-hiliol mewn Ysgolion – Canllaw Ymarferol i Arweinwyr Ysgol yng Nghymru

Ysgol Uwchradd Llanwern High School

Jubilee Park Primary School

Ysgol Gynradd Parc Jiwbili

"Cipolwg diddorol iawn ar waith gwrth-hiliol yr ysgolion hyn. Mae'r ddogfen hon yn cynnig man cychwyn gwych i ysgolion a lleoliadau eraill sy'n ystyried eu datblygiad eu hunain."

Nicky Hagendyk, Consortiwm Canolbarth y De

"Mae'r ddogfen hon yn cyflawni'r nod i'r dim... cafodd ei hysgrifennu gan ymarferwyr, i ymarferwyr ac mae'n ddogfen gyfeirio hanfodol i'w chadw ar eich silff lyfrau wrth-hiliol."

Dr Susan Davis, Met Caerdydd

"Gan gyflwyno gwybodaeth glir am ddysgu proffesiynol ac ymarfer, mae'r casgliad hwn o astudiaethau achos a chamau ymarferol yn adnodd defnyddiol i bob ysgol a lleoliad wrth iddynt ddechrau ar eu taith tuag at wrth-hiliaeth."

Julian Nicholds, Partneriaeth

"Roedd yn bleser darllen y ddogfen hon! Bydd yr enghreifftiau o ysgolion a'r canllawiau o gymorth mawr i ysgolion ac yn eu hannog i fyfyrio ar eu hymarfer gwrth-hiliol eu hunain."

Kath Bevan, ALl Casnewydd

Rhagair



Chantelle Haughton
Cyfarwyddwr, DARPL

Mae'n bleser gennyf rannu a chymeradwyo'r adnodd DARPL ymarferol hwn er mwyn ysgogi, cefnogi a herio dysgu proffesiynol ym maes ymarfer proffesiynol gwrth-hiliol. Mae'r adnodd yn annog pob un ohonom i fwrw ati o ddifrif i fyfyrio ar ein rolau a'n cyfrifoldebau fel addysgwyr wrth ein helpu ni'n hunain a'n dysgwyr i roi newidiadau cymdeithasol ar waith wrth wireddu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030. Rydym wedi llunio'r canllaw hwn ar y cyd ag arweinwyr sy'n rhan o'r broses o roi newidiadau ar waith, gan greu dogfen gyflwyniadol sy'n gofyn i arweinwyr alluogi addysg wrth-hiliol a'i chynnwys ym mhob rhan o'r cwricwlwm a chymuned yr ysgol gyfan mewn ffordd ddilys a pharhaus. Mae'n darparu vignettes a sylwadau sy'n seiliedig ar ymarfer cyfredol yng Nghymru i'w hystyried ochr yn ochr â'r cyfleoedd i gymryd rhan yn y sesiynau dysgu proffesiynol a gynigir gennym yn DARPL.

Rhagair y Cyd-awduron

Sian Smith & Leon Andrews
Ysgol Uwchradd Llanwern

Cat Place & Sarah Griffiths
Ysgol Gynradd Jubilee Park

Gallai'r ddogfen hon fod wedi bod yn wahanol iawn. Gallai fod wedi cynnwys rhethreg academaidd fawreddog, damcaniaeth lefel uchel a thros hanner cant o dudalennau. Gallai hefyd fod wedi cynnwys cyngor am y camau gweithredu rydym yn eu cynllunio, neu gamau gweithredu yr hoffem eu cymryd. Fodd bynnag, pan gyfarfu Ysgol Uwchradd Llanwern ac Ysgol Gynradd Jubilee Park ar-lein am y tro cyntaf, cytunwyd y byddem yn creu dogfen i uwch-arweinwyr a fyddai mor hygyrch ac ymarferol â phosibl. Roeddem am iddi fod yn seiliedig ar ein realiti ni; ac roeddem am i bob darn o gyngor ddeillio o ymarfer yn ein hysgolion, neu mewn ysgol arall yng Nghymru y cawsom gyfle i ymweld â hi. Mae adnoddau a chyfeiriadau academaidd i'w gweld yn y dolenni ychwanegol, ond mae'r ddogfen ei hun yn gwbl ymarferol ac yn berthnasol i Gymru. Gobeithio y gall y ddogfen barhau i gael ei 'hadnewyddu' wrth i Gymru, a'r system addysg yng Nghymru, symud tuag at ddod yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030.

'Nid yw addysg gynhwysol wedi arwain at ganlyniadau teg'

Yr Athro Charlotte Williams

DARPL
Diversity and Anti-Racist Professional Learning
Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

Beth yw Gwrth-hiliaeth?

Mae gwrth-hiliaeth yn mynd y tu hwnt i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a 'pheidio â bod yn hiliol' i wrthwynebu hiliaeth mewn ffordd weithredol ac eirioli o blaid newidiadau rhyngbersonol, sefydliadol a systemig.

Er mwyn gallu gwrthwynebu hiliaeth a bwrw ati i hyrwyddo diwylliant gwrth-hiliol, mae angen i arweinwyr ac athrawon feddu ar ddealltwriaeth o fathau o hiliaeth ac ymrwymo i Ddysgu Proffesiynol a thwf personol yn y maes hwn, yn enwedig mewn perthynas â hunanfyfyrio. Mae angen i arweinwyr ysgol gynnig cyfleoedd i drafod, dysgu a chydweithredu er mwyn i'w hysgol allu cydweithio i herio ei hun a chynnal gwerthusiadau beirniadol ohoni hi ei hun er mwyn bod yn wrth-hiliol.

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad terfynol y Gweithgor **Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd** a oedd yn cynnwys 51 o argymhellion ar adnoddau, hyfforddi'r gweithlu, AGA, addysgu ar ddechrau gyrfa, athrawon ac arweinwyr sefydledig, camau gweithredu ar lefel ysgolion a chamau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o'r 51 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad erbyn mis Ebrill 2020, gan ymrwymo i sicrhau bod addysg yn chwarae rhan allweddol yng ngweledigaeth y wlad a'r cynllun gweithredu dilynol i ddod yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030.

Beth yw Diwylliant?

Nod y ddogfen hon yw eich helpu i ddatblygu 'diwylliant' gwrth-hiliol sydd ar unwaith yn esgor ar gwestiynau o ran ystyr diwylliant a chymhwysedd diwylliannol. Rydym yn dehongli'r cysyniad o gymhwysedd diwylliannol fel proses o ddeall ein hunaniaeth ddiwylliannol ein hunain, ein braint ac ymyleiddio a chredoau, gwerthoedd a hunaniaethau diwylliannol eraill. Nid mater o arddel ideolegau cul, rhagdybiedig a fydd yn anochel yn arwain at ymddygiad stereoteipio niweidiol mohono, ond yn hytrach o gydnabod y gall diwylliant amrywio a newid.

Gair o rybudd...

Er mwyn datblygu dull gweithredu gwrth-hiliol, mae angen amser, cyfleoedd i fyfyrio ac ymrwymiad. Ni fwriedir i chi ddefnyddio'r ddogfen hon fel rhestr wirio neu ymarfer blychau ticio. Yn hytrach, dylid ei defnyddio i annog, tywys a chefnogi ymdrechion i ddatblygu eich ysgol gyfan i greu sefydliad gwrth-hiliol.

Rydym wedi trefnu'r cyngor o dan gategorïau penodol:

- Llywodraethu ac Arweinyddiaeth
- Amgylchedd yr Ysgol/Cwricwlwm Cudd
- Rhieni, Gofalwyr a Phartneriaethau Cymunedol
- Dysgu a Datblygu Proffesiynol
- Addysgeg a'r Cwricwlwm

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Yn ein barn ni, dim ond os bydd arweinwyr yr ysgol, gan gynnwys y corff llywodraethu, yn rhan greiddiol o'r dull gweithredu y gellir cyflawni dull ysgol gyfan mewn perthynas â gwrth-hiliaeth. Mae'n hanfodol bod ymdrechion i greu diwylliant gwrth-hiliol yn eich ysgol yn dechrau gyda'r arweinwyr. Os bydd athro unigol, neu hyd yn oed ddau neu dri athro, yn gwneud gwyrthiau yn eu hystafelloedd dosbarth unigol o ran arferion gwrth-hiliol a dadwladychu'r cwricwlwm, mae eu gwaith wedi'i gyfyngu i'r nifer bach dethol sy'n ddigon ffodus i'w cael fel athrawon. Os bydd plentyn yn dioddef digwyddiad hiliol ac yn dweud wrth oedolyn neu aelod o'r staff, a fydd yn cael yr un ymateb a chamau gweithredu effeithiol, ni waeth pwy y bydd yn dweud wrtho? Mae angen i'r gwaith hwn gael ei lywio gan y tîm arwain er mwyn dylanwadu ar galon, meddwl ac ymennydd pob aelod o staff yr ysgol (ac mae hyn yn cynnwys staff safle, staff ffreutur a staff cymorth) er mwyn i ymarfer gwrth-hiliol ddod yn rhywbeth y mae unigolion 'eisiau ei wneud' yn hytrach nac yn 'gorfod ei wneud' o fewn cymuned eich ysgol.

Beth y gallwn ni ei wneud?

- **Gofynnwch i'r Dysgwyr**. Defnyddiwch aelodau o'ch tîm arwain i drefnu trafodaethau â dysgwyr sy'n rhan o'r Mwyafrif Byd-eang er mwyn gwrando ar eu profiad bywyd o'r ysgol a'r gymuned ac adrodd yn ôl yn onest er mwyn i'r tîm arwain greu darlun clir o'u teimladau.

- Mae sicrhau bod gwrth-hiliaeth a dadwladychu'r cwricwlwm yn rhan o flaenoriaethau a chamau gweithredu Cynllun Datblygu'r Ysgol.

Ysgol Uwchradd Llanwern - Sylwadau gan Uwch-Arweinydd

O ran y sampl o ddysgwyr y cyfwelwyd â nhw, roeddem am sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n gyfforddus i rannu o'u gwirfodd, yn onest ac o fewn man diogel. Nodwyd 6-8 disgybl Mwyafrif Byd-eang o wahanol grwpiau blwyddyn a chafwyd sgwrs unigol â phob un o'r disgyblion i ddechrau i'w gwahodd i gymryd rhan yn y trafodaethau. Esboniwyd y byddent yn cael cyfle i rannu eu safbwyntiau am eu profiadau fel disgyblion Mwyafrif Byd-eang yn yr ysgol, gyda'r nod o lywio gwelliannau ysgol gyfan. Os oeddent yn fodlon cymryd rhan, rhoddwyd llythyr iddynt fynd adref gyda nhw a oedd yn esbonio'r drafodaeth a diben y drafodaeth honno. Roedd y llythyr yn gofyn i'r rhiant/gofalwr a'r disgybl lofnodi i ddangos eu bod yn cydsynio i gymryd rhan. Yn ogystal, roedd y llythyr yn esbonio er y byddai'r trafodaethau yn cael eu recordio, mai er mwyn cymryd nodiadau yr oedd hyn, ac y byddai'r recordiadau yn cael eu dinistrio ar ôl gwneud hynny. Pe byddai gwybodaeth ychwanegol yn cael ei datgelu a bod angen cymorth pellach, byddai hyn yn cael ei roi ar waith drwy rwydweithiau cymorth yr ysgol ac, ar gyfer un disgybl, cyfarfodydd wythnosol parhaus.

- Sicrhewch fod eich gwaith gwrth-hiliol yn gysylltiedig â'r cwricwlwm a llesiant. Cynhaliwch archwiliadau amrywiaeth o bob un o feysydd y cwricwlwm gan gynnwys eich cwricwlwm llesiant/bugeiliol, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd. Dylai'r cysylltiad rhwng y weledigaeth wrth-hiliol a'r Pedwar Diben fod yn amlwg; sut gall pob disgybl ddod yn unigolion iach a hyderus heb wybod na fydd neb yn gwahaniaethu yn ei erbyn? Sut gall disgyblion ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus o Gymru a'r byd heb gwricwlwm wedi'i ddadwladychu?

- Sicrhewch fod Arweinydd Amrywiaeth neu Wrth-hiliaeth neu Wrthwahaniaethu wedi'i gynnwys fel un o rolau a chyfrifoldebau diffiniedig yr uwch-reolwyr.
- Dangoswch esiampl drwy eich ymddygiad personol. Rhowch ddiwylliant o onestrwydd ar waith ar bob lefel, ni waeth pa mor anodd yw hynny, er mwyn galluogi gwelliannau.
- Symudwch allan o'ch ardal ofnau i'ch ardal dysgu a thyfu er mwyn symud o fod yn unigolyn nad yw'n hiliol i unigolyn gwrth-hiliol.
- Lluniwch gynllun strategol er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgysylltu â DARPL[1] ac yn cael y cyfle i fynychu hyfforddiant DARPL blynyddol, fel gofyniad diogelu sylfaenol.

Ysgol Uwchradd Llanwern - Sylwadau gan Uwch-Arweinydd

Pan ddechreuais i wneud ymdrech fwriadol i wrando ar ddysgwyr Mwyafrif Byd-eang yn ein hysgol ac i ddarllen am brofiadau bywyd pobl sy'n rhan o'r Mwyafrif Byd-eang, cododd fy anwybodaeth o ran hiliaeth a gwahanol fathau o hiliaeth gywilydd arnaf. Sylweddolais fy mod wedi cael cymaint o bethau'n anghywir o ran y ffordd roeddwn i'n deall sefyllfaoedd, a'r ffordd roeddwn i wedi meddwl ac wedi ymddwyn yn y gorffennol. Roeddwn i'n teimlo'n anwybodus, a dechreuais fod bron yn or-ofalus ac yn dawel iawn mewn unrhyw sgyrsiau am hil ac ethnigrwydd. Roeddwn i'n poeni y byddwn i'n sarhau rhywun neu'n dweud y peth anghywir. Fel rhan o Gyfres Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL) i Uwch-arweinwyr, mae Rachel Clarke yn awgrymu y dylid: 'bod yn gyfforddus â bod yn anghyfforddus'. Mae atgoffa fy hun o gyngor Rachel yn fy helpu i oresgyn yr ofn rwy'n ei deimlo am wneud y gwaith hwn. Nawr, rwy'n mynd ati i ddarllen a phrosesu amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol er mwyn gwella fy nealltwriaeth a'm gallu i weld y safbwyntiau hyn. Sylweddolais fy mod, drwy gydol fy mywyd, wedi bod yn darllen ac yn gwrando ar safbwyntiau gwyn ac mai safbwyntiau gwyn sydd wedi dylanwadu arnaf (cydweithwyr, teulu a grwpiau ffrindiau). Er mwyn tyfu a theimlo'n hyderus wrth arddel safbwynt gwrth-hiliol yn fy mywyd proffesiynol a phersonol, gwnes benderfyniad bwriadol i ddarllen awduron y Mwyafrif Byd-eang yn unig. Mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth i mi. Nid wyf bellach yn osgoi sgyrsiau sy'n ymwneud â hil er mwyn i mi allu datblygu o ran cynghreiriaeth a gwybodaeth a dod yn eiriolwr dewr o blaid gwrth-hiliaeth.

[1] ***https://darpl.org***



- Aseswch eich prosesau ar gyfer cofnodi digwyddiadau hiliol a gwnewch yn siŵr eu bod yn addas at y diben.
- Ymchwiliwch i bob digwyddiad hiliol honedig fel rhan o broses y cytunwyd arni ac a gafodd ei llunio ar y cyd, a rhowch wybod i'r partïon dan sylw eich bod yn gwneud hynny.
- Sicrhewch y gall y staff, gan gynnwys uwch-aelodau o'r staff, gyflwyno addysg wrth-hiliaeth ar ôl digwyddiad hiliol a bod pob digwyddiad yn cynnwys elfen addysg a/neu'n llywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm.
- Helpwch aelodau allweddol o staff i dreialu dulliau ymarfer newydd yn eich ysgol sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac ymdrechion i ddadwladychu'r cwricwlwm er mwyn pennu sylfaen ar gyfer ymarfer llwyddiannus.
- Penodwch Lywodraethwr i arwain ac i herio ymarfer gwrth-hiliol o ran polisïau ac ymarfer.
- Ceisiwch sicrhau bod y Mwyafrif Byd-eang wedi'i gynrychioli ar eich Corff Llywodraethu.
- Sicrhewch fod eich proses recriwtio yn dangos eich safbwynt gwrth-hiliol yn glir drwy hysbysebion, y deunydd a anfonir at ymgeiswyr a thasgau/ cwestiynau'r panel.
- Byddwch yn fentor i staff Mwyafrif Byd-eang yn eich ysgol er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol.

Ysgol Gynradd Mount Stuart

Mae llawer gennym i'w ddysgu wrth symud ymlaen fel ysgol a chymuned. Rydym yn dechrau ar y gwaith anodd ac anghyfforddus o fynd i'r afael â braint pobl Wyn yn yr ysgol, gan edrych ar ein holl bolisïau a systemau drwy lens wahanol. Rydym yn fwy ymwybodol o ragfarn ddiarwybod a sicrhau ei bod yn cael ystyriaeth flaenllaw wrth wneud penderfyniadau. Byddwn yn addysgu ein hunain a'n disgyblion i fod yn wrth-hiliol. Dyma'r siwrnai dros y 3-5 mlynedd nesaf; mae newid yn anodd ac yn ddi-drefn ond mae'n hanfodol er mwyn inni allu tyfu.

Amgylchedd yr Ysgol/Cwricwlwm Cudd

Yn aml, gall amgylchedd yr ysgol 'ddweud' cryn dipyn am ysgol heb ddweud unrhyw beth, a gall fod negeseuon cudd sy'n anfwriadol ddigroeso os na wneir ymdrech bendant i'w harchwilio ac i ymdrin â nhw.

- Archwiliwch eich 'cwricwlwm cudd' – cerddwch o amgylch eich ysgol a nodwch arwyddion, posteri, coridorau, arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth, bwydlenni yn y ffreutur. A ydych yn cynrychioli pob disgybl?

- Defnyddiwch lens amrywiaeth ar bolisïau eich ysgol, gan gynnwys eich polisi gwisg ysgol. A ydynt yn gynhwysol? **A ydych wedi mabwysiadu cod Halo[2] ar gyfer gwallt a steiliau gwallt Affro?**


- Edrychwch ar ardal eich derbynfa – a yw'n groesawgar i bob rhiant/gofalwr o ran arwyddion, ffotograffau, iaith?

- Edrychwch ar eich amgylcheddau a'ch adnoddau dysgu – beth maent yn ei ddweud? A ydynt yn cynrychioli'r Mwyafrif Byd-eang?

- **Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn gwybod beth i'w wneud/at bwy i droi os byddant yn dioddef hiliaeth neu fathau eraill o wahaniaethu.**

Ysgol Gynradd Mount Stuart

Rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn llyfrau sy'n cynrychioli ein disgyblion; 'gallwch chi ddim bod yn rhywbeth na allwch chi ei weld'. Rydym yn dewis llyfrau sy'n cynrychioli diwylliannau a hanes y Mwyafrif Byd-eang yn ogystal â nodweddion eraill mewn pobl. Rydym yn edrych ar gwmpas drwy gydol y flwyddyn; rydym yn ymchwilio, yn darllen ac yn trafod awduron gwahanol a themâu / materion gwahanol. Rydym yn ystyriol o adroddiad 'Reflecting Realities 2017 i 2019' sy'n nodi bod 35% o'r boblogaeth ysgolion genedlaethol yn dod o dreftadaeth cymunedau byd-eang ond mai dim ond 5% o lyfrau sy'n cynnwys cymeriad Mwyafrif Byd-eang. Mae hynny'n fwy amlwg fyth yn ein cymuned ni, gan fod 95% o'n disgyblion yn dod o dreftadaeth cymunedau byd-eang.



[2] *https://halocollective.co.uk/halo-workplace/*



Ysgol Gynradd Jubilee Park

Gan ein bod wedi dechrau datblygu ein cwricwlwm gwrth-hiliol, rydym wedi bod yn rhoi ystyriaeth gynyddol i sut rydym yn llunio ein hamgylcheddau dysgu, gan sicrhau eu bod yn cynrychioli ein teuluoedd yn well. Yn y Blynyddoedd Cynnar yn benodol, gwnaethom drafod ein corneli cartref. Beth oedd y dillad gwisgo i fyny, yr eitemau bwyd a'r cynhyrchion gwallt yn ei ddweud am y teuluoedd yn Jubilee Park? A oeddent yn gynhwysol neu'n cynrychioli pobl Wyn yn bennaf? Gwnaethom edrych ar y doliau a'r cymeriadau byd bach a oedd yn cael eu defnyddio fel rhan o'n darpariaeth, gan ystyried y negeseuon a oedd yn cael eu rhannu o ran lliw croen, benyweidd-dra a gwallt. Wrth symud ymlaen, rydym yn parhau i fyfyrio fel ymarferwyr, gan ofyn cwestiynau hanfodol i ni'n hunain. Sut y gallwn sicrhau y caiff pob un o'n cymunedau eu cynrychioli a'u parchu yn Ysgol Gynradd Jubilee Park? Sut y gallwn gynnwys ein cymuned yn ein darpariaeth ac yn olaf, sut y gallwn sicrhau bod ein hamgylcheddau dysgu a'n haddysgeg yn darparu safbwynt ehangach?

- Gwnewch yn siŵr bod eich gwefan yn cynnig cyfleuster cyfieithu.
- Gwnewch yn siŵr bod eich disgyblion a'u rhieni/gofalwyr yn ymwybodol bod opsiynau bwyd Halal/llysieuol ar gael a sicrhewch fod yr opsiynau hyn yn cael eu labelu'n glir gan staff y ffreutur.
- Darparwch ystafell ffydd i'r myfyrwyr a'r staff â mynediad ychwanegol ar gyfer digwyddiadau crefyddol a diwylliannol.
- A yw siaradwyr gwadd ar gyfer gwasanaethau/gwersi yn cynrychioli'r Mwyafrif Byd-eang? A yw ymweliadau addysgol yn annog cyfleoedd i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o sefydliadau/arweinwyr cymunedol a grwpiau ffydd?

Ysgol Uwchradd Llanwern

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant DARPL, a'u bod yn gallu ymdrin â digwyddiadau hiliol yn hyderus yn y ffordd briodol. Fodd bynnag, hyd nes y bydd hynny wedi digwydd, rydym wedi arddangos posteri o amgylch yr ysgol ac ym mhob grŵp tiwtor. Mae'r posteri hyn yn cynnwys lluniau o'n 'hyrwyddwyr' staff gwrthwahaniaethu, rhif eu hystafell a'u cyfeiriad e-bost, ac yn rhoi gwybod i'r disgyblion y gallant droi at yr aelodau hyn o staff os bydd rhywun wedi gwahaniaethu yn eu herbyn nhw, neu rywun y maent yn ei adnabod. Rydym am i bob un o'n disgyblion fod yn ymwybodol o rywun y gallant droi ato sy'n ymrwymedig i'w helpu, wedi'i hyfforddi ac yn hyderus i wneud hynny.

DARPL
Diversity and Anti-Racist Professional Learning
Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

Rhieni, Gofalwyr a Phartneriaethau Cymunedol

Mae cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaethau cymunedol yn allweddol er mwyn datblygu eich safbwynt gwrth-hiliol fel ysgol. Nid yn unig y gall rhieni a gofalwyr Mwyafrif Byd-eang roi cyngor a chymorth i chi, ond gall partneriaethau â sefydliadau lleol neu sefydliadau cenedlaethol â chynrychiolaeth leol eich helpu hefyd. Bydd cynnwys y gymuned yn cyfoethogi'r hyn y gallwch ei gynnig fel y sgol ac yn helpu pobl y tu allan i'r ysgol i ddeall ystyr bod yn wrth-hiliol.



Ysgol Gynradd Jubilee Park

Fel staff, roeddem am wybod mwy am ein teuluoedd a'u profiadau bywyd. Gan ein bod yn addysgu'r Blynyddoedd Cynnar, roeddem yn ymwybodol bod gennym ran bwysig i'w chwarae wrth osod y sylfeini ar gyfer ymdrin â hil a sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynrychioli. Un o'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym oedd gwahodd ein teuluoedd i rannu eu straeon â ni fel rhan o'u gwaith dysgu gartref. Cyflwynodd y teuluoedd wybodaeth mewn sawl gwahanol ffordd yn amrywio o straeon, rhannu hanesion traddodiadol, ffotograffau, ryseitiau, hanes y teulu ac ati. Gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i gynllunio themâu, ac yn benodol i ddewis llyfrau ac adnoddau ar gyfer y gornel gartref. Drwy ddeall profiadau bywyd ein teuluoedd, gwnaethom lwyddo i gynrychioli ein plant yn well a rhoi ymdeimlad mwy o Gynefin iddynt.

- **Gofynnwch i'ch rhieni/gofalwyr Mwyafrif Byd-eang am eu profiadau bywyd o'r gymuned a'r ysgol a defnyddiwch eu hymatebion i addysgu eich UDA ac i wella.**

- Ystyriwch eich agwedd yn ofalus wrth estyn allan i'r gymuned Mwyafrif Byd-eang. A ydych yn barod i dalu am amser pobl ac adnoddau? Ystyriwch yr hyn y byddwch yn ei ofyn – a allai achosi trawma?

Ysgol Uwchradd Llanwern

Mae gennym Galendr Dathliadau â thema benodol bob hanner tymor sy'n canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd diwylliannol cymuned yr ysgol.

Thema olaf y flwyddyn academaidd yw Mudo a'r llynedd, gwnaethom gynnal gŵyl 'Tastes of Newport' yn yr ysgol, gan ddathlu bwydydd o bob cwr o'r byd. Gan gydweithio â'n tîm datblygu cymunedol lleol a Persimmon Homes, gwahoddwyd gwerthwyr bwyd stryd lleol i gyflwyno eu bwydydd blasus i ddisgyblion, staff, rhieni ac aelodau o'r gymuned.

Fel ysgol sydd wedi'i lleoli yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, roeddem am roi cyfle i bob rhanddeiliad samplu bwydydd na fyddent o bosibl yn dod ar eu traws fel arfer, ac roedd Pepiadas o Venezuela a Thacos Feganaidd Mecsicanaidd yn amlwg yn boblogaidd! Mae'r digwyddiad bellach yn rhan sefydledig o galendr yr ysgol, ac mae'n datblygu cysylltiad yr ysgol â'r gymuned leol a'r gymuned fyd-eang ymhellach.

- Ystyriwch gynnig dosbarthiadau sgwrsio anffurfiol neu gymwysterau iaith hyd yn oed i rieni/gofalwyr.

- Sicrhewch fod eich safbwynt gwrth-hiliol yn amlwg ar y cyfryngau cymdeithasol ac fel rhan o ddigwyddiadau codi arian ysgol gyfan, er enghraifft, yr ymgyrch Gwisgo Coch flynyddol er mwyn Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Cod Halo.

- **Ceisiwch gynnwys rhieni/gofalwyr a'r gymuned mewn digwyddiadau ysgol gyfan lle y bo'n bosibl.**

- Sicrhewch fod partneriaethau allanol yn cael eu rhoi ar waith. Ni fyddwch o reidrwydd yn meddu ar yr arbenigedd i gyflwyno cyfleoedd Dysgu Proffesiynol effeithiol yn fewnol, ac nid oes angen i chi wneud hynny. Gallwch siarad â DARPL neu edrych ar ei wefan i gael rhagor o wybodaeth am bartneriaid a all eich helpu. Er enghraifft, bydd sefydliadau fel Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Race Council Cymru a grwpiau lleol eraill yn gallu helpu.

- Ymgysylltwch â thîm datblygu cymunedol a gwasanaeth cyflawniad disgyblion o gymunedau ethnig lleiafrifol eich awdurdod lleol. Mae cydweithredu â'r partneriaid hyn o fudd i'r gymuned gyfan ac yn golygu y gellir rhannu costau ac y gellir ehangu'r neges wrth-hiliol.

Doc Penfro

Rydym yn cydnabod mai profiadau bywyd cyfyngedig sydd gan lawer o'n dysgwyr ac nad oes llawer o amrywiaeth yn ein dalgylch. Ar adeg creu ein pwnc, roedd tensiynau lleol, gan fod ceiswyr lloches yn cael eu lletya dros dro yn yr ardal leol, a darlledwyd hanes y gwrthdaro yn y newyddion. Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn cynnwys targed i leihau nifer y troseddau hiliol a'r troseddau casineb yn y gymuned. Yn seiliedig ar hyn, lluniwyd pwnc ysgol gyfan o'r enw 'Don't Hate, Educate'. Roeddem am roi'r gallu i'n dysgwyr gwestiynu yr hyn roeddent yn ei weld ac yn ei glywed yn y cyfryngau, yn ein hardal leol a hyd yn oed yn ein hysgol, ac i beidio â derbyn hiliaeth ac anghydraddoldeb. Gwnaethom waith cynllunio gofalus fel ysgol gyfan ac ymgynghori ag eraill. Y cam cyntaf oedd edrych ar y cofnod o ddigwyddiadau hiliol yn yr ysgol er mwyn deall yn llawn y materion roeddem yn eu hwynebu.

Gwnaethom hwyluso hyfforddiant a gweithdai ysgol gyfan i'n dysgwyr ar leiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Fel staff, gofynnwyd i ni gamu allan o'n hardaloedd cysur ond roedd angen i ni wneud hyn er mwyn creu hinsawdd o newid.

Roeddem yn gallu gweld ar unwaith y byddai defnyddio testunau empathi yn ffordd o gyflwyno ein pwnc. Roeddem yn gwybod, er mwyn i'n disgyblion ddeall hiliaeth, fod angen iddynt empatheiddio ag eraill a rhoi eu hunain yn esgidiau pobl eraill. Gwnaethom gysylltu ein testunau â'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a phrynu amrywiaeth eang o wahanol destunau. Drwy ddefnyddio'r testunau hyn, gwelsom fod y disgyblion yn gallu cydnabod teimladau pobl eraill â gwahanol safbwyntiau, profiadau, gwerthoedd a chredoau.

Gwnaethom annog teuluoedd i gymryd rhan ac i fynd am dro empathi yn y gymuned gan nodi teimladau ar gyfer pob rhan o'r daith. Fel teulu, aethant ati i greu fideos, rhannu mapiau o'u teithiau a gwneud addunedau empathi er mwyn helpu eraill yn y gymuned. Mae gweithredu cymdeithasol yn rhan sylweddol o'n hymarfer ac mae'n grymuso ein dysgwyr i ddeall y gallant wneud newid.



Dysgu a Datblygu Proffesiynol

Fel y mae'r data a gyhoeddwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn dangos, unigolion Prydeinig Gwyn yw'r mwyafrif helaeth o athrawon ysgol ac aelodau o dimau arwain. Felly bydd bron pob aelod o'r staff addysgu a'r arweinwyr mewn ysgolion yng Nghymru wedi cael y fraint o beidio â gorfod meddwl am y microymosodiadau a'r hiliaeth systematig a sefydliadol y mae'r Mwyafrif Byd-eang yn eu hwynebu. Mae'n bosibl y bydd bwriadau da ganddynt wrth ymdrin â digwyddiadau ac achosion o sarhad hiliol ac wrth addysgu cynnwys, ond y bydd eu dull mewn gwirionedd yn niweidiol. Dyna pam ei bod hi'n hanfodol 'ailosod' eich staff o ran Dysgu Proffesiynol, ond bod angen i chi hefyd sicrhau eich bod yn creu'r amgylchedd cywir ar gyfer y broses ailosod honno.

- Cynhaliwch gyfweliadau/holiaduron staff. Pa mor hyderus fyddai eich staff wrth ymdrin â digwyddiadau hiliol? A yw'r hyder hwnnw yn amhriodol? A ydynt yn gwybod beth sy'n gyfystyr â digwyddiad hiliol? Pa mor wybodus ydynt o ran dadwladychu'r cwricwlwm? Beth sydd ei angen arnynt o ran Dysgu Proffesiynol?

- Defnyddiwch y gweithdai Dysgu Proffesiynol byw ac wedi'u recordio ymlaen llaw ardderchog gan DARPL i uwch-arweinwyr, athrawon a staff cymorth[3] .

- Dylech gynnwys pob aelod o'r staff. Nid yw'n dda i ddim os bydd pob aelod o'ch staff addysgu yn dysgu am ymarfer gwrth-hiliol os na chaiff staff safle, staff gweinyddol, staff y ffreutur a staff cymorth eu cynnwys ac na fyddant yn deall y weledigaeth.



[3] *https://darpl.org*

Ysgol Uwchradd Llanwern

Roedd angen i ni helpu ein staff i fod yn fwy ymwybodol o hil ac yn fwy hyderus wrth ymdrin â digwyddiadau hiliol ac i'w hysbrydoli i wneud newidiadau i'r cwricwlwm a newidiadau addysgegol gan mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud, yn hytrach nag am eu bod yn cael cyfarwyddyd i wneud hynny. Ac o'r sail honno y datblygodd y syniad ar gyfer y 'Gynhadledd Dathlu Amrywiaeth'. Gwnaethom neilltuo diwrnod HMS yn ystod tymor yr haf 2021 a chynllunio diwrnod a fyddai'n seiliedig ar nodweddion gorau cynadleddau cenedlaethol: siaradwr allweddol gwadd a dewis o weithdai. Byddai'r gweithdai hyn yn cael eu cyflwyno gan bartneriaid allanol a staff addysgu o'n hysgol ni ac o ysgolion eraill.

Drwy roi'r cyfle i'r staff ddewis dau o'r gweithdai a oedd yn apelio atynt ac yr oeddent wedi penderfynu dysgu mwy amdanynt, teimlwyd y gellid osgoi'r ymdeimlad 'o'r brig i'r bôn' ac o 'fenter arall ddibwys'.

Cymerodd pob aelod o staff yn Llanwern – nid dim ond y staff addysgu a'r staff cymorth addysgu – ran yn y gynhadledd. Roedd yn holl bwysig i ni fel ysgol allu 'gosod sylfeini' ein hymrwymiad i ddull gweithredu gwrth-hiliol, a'r gynhadledd oedd y man cychwyn swyddogol ar gyfer dangos hyn.



- **Caniatewch rywfaint o ddewis o ran yr elfennau y bydd eich staff yn canolbwyntio arnynt wrth iddynt symud tuag at fod yn wrth-hiliol.** Unwaith y byddwch wedi derbyn/yn gwbl ymwybodol o hiliaeth sefydliadol, byddwch am weithredu'n gyflym, ond mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn cynnwys pawb. Mae angen i chi sicrhau diwylliant o 'eisiau' nid 'gorfod', ac mae angen i chi gynnwys 'nifer amrywiol' nid 'ychydig dethol'.

- **Defnyddiwch yr holl adnoddau sydd ar gael i chi er mwyn atgyfnerthu eich gwaith. A yw'n rhan o Gynllun Datblygu'r Ysgol a/neu weledigaeth yr ysgol?**



Ysgol Gynradd Jubilee Park - Sylwadau gan Athro

Mae Dysgu Proffesiynol effeithiol yn hanfodol ar ein taith tuag at ddod yn wrth-hiliol a dadwladychu'r cwricwlwm. Yn bersonol, mae wedi rhoi cyfle i mi ystyried profiadau cynllunio ac addysgu blaenorol ac i gynnal dadansoddiad beirniadol ohonynt drwy lens wrth-hiliol. Rhoddodd hyn gyfle i mi feddwl am adegau pan y gallwn yn anfwriadol fod wedi 'aralleiddio' neu fod wedi edrych drwy lens Ewrosentrig. Drwy ein Dysgu Proffesiynol, rwyf wedi dechrau ystyried 'pa ran o'r stori sydd ar goll?' Dechreuais ofyn, sut y galla i roi mwy o sylw i leisiau a phrofiadau bywyd y Mwyafrif Byd-eang? Ym Mlwyddyn 6, ein thema yw 'Our World and Beyond', sy'n ystyried y cysylltiadau rhwng ein byd a'r gofod. Wrth gynllunio'r agwedd llythrennedd, defnyddiais y llyfr 'Hidden Figures' i ddathlu cyflawniadau pedair menyw Ddu yn ras ofod America.

Cafodd y dysgwyr wybod am gyflawniadau pob menyw gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i ysgrifennu llythyr darbwyllol yn nodi pam y dylid dathlu'r menywod hyn a'u cynnwys yn ein cwricwlwm. Defnyddiais y pecyn cymorth Gwrth-hiliaeth a ddarparwyd gan DARPL i ystyried cynllunio fy adnoddau. Gwnaeth hyn fy helpu i sicrhau bod y dysgwyr yn deall cyd-destun gwahanu ond heb roi gormod o bwyslais ar agweddau negyddol, ac yn hytrach, gan ddathlu cyflawniadau'r menywod hynny.

Ysgol Gynradd Mount Stuart

Mae gweledigaeth yr ysgol yn ganolog i'r stori; mae'n darparu'r gorwel rydym yn anelu ato:

- *Fel dysgwr yn Ysgol Gynradd Mount Stuart, byddwch yn cael cyfleoedd a phrofiadau a fydd yn eich herio i fod yn ddinesydd iach, meddwl agored sy'n meddwl yn feirniadol ac yn cyfathrebu'n hyderus.*
- *Byddwch yn gallu meithrin, cynnal ac ailadeiladu cydberthnasau drwy gydol eich bywyd.*
- *Bydd gennych sgiliau o'r radd flaenaf a fydd yn eich galluogi i gyflawni'n uchel ac yn eich paratoi ar gyfer dyfodol cyffrous a fydd yn newid yn barhaus.*
- *Byddwch yn deall eich treftadaeth ac yn falch o bwy ydych fel rhan o'n cymuned amrywiol ym Mount Stuart.*

- Defnyddiwch amcan Rheoli Perfformiad cyffredinol gwrth-hiliol sy'n cefnogi Dysgu Proffesiynol annibynnol.
- Defnyddiwch gyfleoedd anffurfiol yn ogystal â chyfleoedd ffurfiol i hwyluso cyfleoedd Dysgu Proffesiynol. Buddsoddwch mewn llyfrgell ysgol sy'n cynnwys deunydd darllen a argymhellir. Sefydlwch Glwb Llyfrau i'r staff a darllenwch gyda'ch gilydd gan gynnig cyfleoedd cymdeithasol i drafod a myfyrio.



Ysgol Gynradd Jubilee Park - Sylwadau gan Athro

Ar ôl cyflwyno Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac o ystyried pwysigrwydd ei gynnwys yn y cwricwlwm newydd, penderfynais ddefnyddio fy amser dysgu proffesiynol i feithrin fy nealltwriaeth o wrth-hiliaeth, fy mraint fel person Gwyn a'r rôl gadarnhaol y gallwn ei chwarae fel athro. Dechreuais drwy ystyried yr hyn yr oeddwn yn ei ddarllen ar lefel bersonol, gan edrych ar lyfrau fel; Me and White Supremacy, Layla F Saad, White Privilege: Unpacking the invisible knapsack, Peggy McIntosh a Cymru Wrth-hiliol gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl i mi ddechrau'r 'gwaith' arnaf fi fy hun, roeddwn yn teimlo fy mod mewn gwell sefyllfa i ddechrau meddwl sut y gallwn ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn i'm helpu i ddechrau cynllunio ar gyfer fy themâu yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad i'm gwaith ymchwil, llwyddais i gynllunio er mwyn canolbwyntio ar newid yn hytrach na beio neu godi cywilydd, i ddangos esiampl o ymddygiad cynhwysol ac i sicrhau amrywiaeth yn ein cwricwlwm. Rwyf wedi parhau i addysgu fy hun ymhellach drwy ein dull ysgol gyfan mewn perthynas â dysgu proffesiynol a chan ddefnyddio cyswllt ein hysgol â DARPL.

- Defnyddiwch leoliadau grŵp llai ar gyfer rhai gweithgareddau Dysgu Proffesiynol gwrth-hiliol, fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y caiff pawb eu cynnwys a bod gan bawb lais.

- Edrychwch am gyfleoedd wedi'u cyllido i gefnogi eich gwaith datblygu a'ch gwaith ymchwil eich hun, er enghraifft, drwy Gymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA) neu Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd cyllid yn rhoi amser i chi, yn ogystal ag adnoddau eraill, i gefnogi eich gwaith.

- Defnyddiwch sefydliadau allanol neu gyrff proffesiynol i roi cyngor strategol i chi ac i asesu eich ymarfer. Er enghraifft, 'Gwobr Ysgolion Gwrth-hiliol' Prifysgol Leeds Beckett neu Nod Siarter 'Race and Conscious Equality' (RACE) Fig Tree International.

- Defnyddiwch y llyfrgell ar wefan DARPL i ddysgu am brofiadau pobl eraill ac i gyfrannu eich canfyddiadau/profiad eich hun at y sgwrs.

Addysgeg a'r Cwricwlwm

Dylai'r broses o gynllunio'r cwricwlwm fod yn seiliedig ar weledigaeth eich ysgol a dylai alluogi pob dysgwr i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben. Er mwyn datblygu cwricwlwm gwrth-hiliol, mae'n bwysig cefnogi ac annog athrawon i ystyried eu themâu drwy lens amrywiaeth a Chynefin.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle unigryw i ysgolion ystyried ei threftadaeth a'i hamrywiaeth ddiwylliannol, ei hieithoedd a gwerthoedd, hanesion a thraddodiadau ei chymunedau a'i holl bobl. Dylai dysgwyr ddeall yr hunaniaethau, y tirweddau a'r hanesion sy'n dod ynghyd i greu eu Cynefin. Yn ogystal â'u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u llesiant eu hunain, bydd hyn hefyd yn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth o hunaniaethau ac i greu cysylltiadau â phobl, lleoedd a hanesion mewn rhannau eraill o Gymru ac ym mhob cwr o'r byd. Mae'n bwysig bod hyn yn gynhwysol ac yn seiliedig ar brofiadau, safbwyntiau a threftadaeth ddiwylliannol Cymru gyfoes (Cynllunio Cwricwlwm yng Nghymru ac i Gymru, Hwb).

Wrth ddatblygu'r broses o gynllunio cwricwlwm, cynnwys gwersi a'r trefniadau cyflwyno, dylid ystyried yn ofalus p'un a gaiff stereoteipiau o draddodiadau diwylliannol ethnig a chenedlaethol eu cyflwyno. Er bod y bwriad yn aml yn gadarnhaol, gall cynnwys gwersi a'r trefniadau cyflwyno atgyfnerthu neu weithiau greu rhagfarn hiliol. Mae creu dealltwriaeth gyffredin er mwyn llunio barn ddilys o bobl fel y maent o ddifrif, yn hanfodol er mwyn osgoi 'gwahaniaeth' tybiedig neu broses o 'aralleiddio', a gwireddu Cynefin o ddifrif.

- Lluniwch linell sylfaen ar gyfer eich gwaith drwy archwiliadau amrywiaeth o'r cwricwlwm a llesiant. Bydd hyn hefyd yn cynnig 'drych' i'r staff weld sut y mae angen iddynt ddadwladychu ac arallgyfeirio eu cwricwlwm a chynnig cyfleoedd i ddathlu cyfraniadau'r Mwyafrif Byd-eang. Yn rhy aml, dim ond drwy fodel diffygiol y ceir cynrychiolaeth, er enghraifft, y fasnach mewn caethweision ar draws yr Iwerydd a chymeriad Crooks yn Of Mice and Men.

- Hwyluswch gyfleoedd parhaus a rheolaidd ar gyfer Llais y Dysgwr. Lluniwch Grŵp Trafod a Dathlu Amrywiaeth i'r disgyblion er mwyn i chi barhau i glywed lleisiau disgyblion Mwyafrif Byd-eang a'u cynghreiriaid. Defnyddiwch y disgyblion i lywio/adolygu unrhyw bolisïau drafft/prosesau recriwtio, posteri, adnoddau ac ati.

- **Sicrhewch fod dadwladychu'r cwricwlwm ac Amrywiaeth yn ffactor ysgogi sy'n cael blaenoriaeth yn eich gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru; gan ei ddefnyddio fel lens i fyfyrio ar eich gwaith hyd yn hyn ac i dywys addasiadau priodol.**

Ysgol Nantgwyn

Bu'r broses o gynllunio'r cwricwlwm wrth wraidd ein datblygiad fel sefydliad sy'n dysgu. Ers i ni agor, rydym wedi datblygu'r staff i allu datblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion amrywiol a gwahanol ein disgyblion a gofynion y byd y maent yn byw ynddo. Mae ein cwricwlwm yn cwmpasu anghenion ehangach ein disgyblion, yn archwilio eu hunaniaeth, eu diwylliant, a'r cyd-destun y maent yn byw o'i fewn, ac mae hefyd yn eu helpu i ddod yn fwy ymwybodol o hunaniaeth pobl eraill, yng Nghymru a thu hwnt iddi. Caiff y cwricwlwm ei lunio ar y cyd gan annog cyfraniad, cyfranogiad ac ymgysylltiad cynyddol gan y disgyblion (yn arbennig) ond hefyd gan rieni a llywodraethwyr. Gan ddefnyddio dull ymholi, mae'r disgyblion wedi archwilio amrywiaeth o ffigyrau nodedig o Gymru o wahanol grwpiau cynrychioliadol i'w helpu i fyfyrio ar hunaniaeth ac i feithrin eu dealltwriaeth o gyfraniadau'r Mwyafrif Byd-eang a'r effaith y mae eu llais a/neu eu gweithredoedd wedi'i chael yng Nghymru.

- Defnyddiwch lwyfannau a chyfleoedd sefydledig i rannu arferion da mewn perthynas ag ymarfer ac adnoddau gwrth-hiliol, neu mewn perthynas â thema drawsgwricwlaidd Amrywiaeth.

- Dylech gynnwys pob MDPh wrth ddadwladychu'r cwricwlwm nid dim ond y meysydd pwnc amlycaf sef y Dyniaethau ac Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Ysgol Uwchradd Llanwern

Nid Prydain yw tarddle llawer o'r cysyniadau mathemategol. Yn amlach, maent yn dod o wlad Groeg, Mesopotamia, India a Tsieina. Rydym wedi annog ein disgyblion i ddeall hyn mewn tair ffordd. Yn gyntaf, rydym yn dangos lluniau o fathemategwyr a mathemateg iddynt o bob cwr o'r byd yn ein harddangosfa ac fel rhan o adnoddau gwersi. Gall y rhain gynnwys y creawdwr neu rywun sydd wedi llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth fathemategol ymhellach yn y byd modern. Yn ail, rydym yn gosod gwaith cartref perthnasol yn seiliedig ar waith ymchwil ar fathemategwyr o bob cwr o'r byd er mwyn i'r disgyblion allu symud o ddull Ewrosentrig a darganfod a chydnabod y dylanwad cadarnhaol y mae'r Mwyafrif Byd-eang wedi'i gael ar fathemateg. Yn drydydd, rydym yn defnyddio'r gwaith ymchwil a wnaed fel gwaith cartref ac yn ei arddangos ym mhob rhan o'r adran. Nod hyn yw dangos i'r disgyblion nad dim ond eu hathrawon (sef pobl Wyn yn bennaf) sy'n fathemategwyr. Bydd pobl o bosibl o'r farn nad yw hyn yn datblygu gwybodaeth fathemategol, ond pan fydd pob disgybl yn cydnabod y dylanwadau byd-eang ar fathemateg, bydd nid yn unig yn gynrychioliadol, ond bydd hefyd yn gosod eu dysgu mewn cyd-destun ac yn ysbrydoli pawb.

- Hwyluswch adolygiadau cymheiriaid o waith, er enghraifft unedau gwaith/themâu, polisïau Addysgu a Dysgu, adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, adroddiadau monitro a gwerthuso, drwy lens amrywiaeth.

- Cydweithiwch ag ysgol bartner â demograffeg wahanol er mwyn i chi, eich disgyblion a'ch staff gael y cyfle i drafod a gweithio gyda'ch gilydd ar brofiadau a dulliau addysgol.



Ysgol Gyfun Glantaf/Ysgol Uwchradd Llanwern

Ar ôl mynychu'r Gynhadledd Dathlu Amrywiaeth yn Llanwern, roedd yn amlwg o ohebiaeth ddilynol, fod gan dimau arwain Glantaf a Llanwern yr un brwdfrydedd ac awydd i greu diwylliant gwrth-hiliol. Gan nad oedd profiad bywyd perthnasol gan staff y naill ysgol na'r llall, gwnaethom benderfynu cael ein harwain gan y disgyblion mewn prosiect cydweithredol.

Roedd yn fraint addysgol lwyr cael gwylio a gwrando ar ddisgyblion Mwyafrif Byd-eang a'u cynghreiriaid o'r ddwy ysgol yn cyfarfod ac yn trafod eu profiadau. Mae'r disgyblion wedi cael y cyfle i ymweld ag ysgolion ei gilydd a, chyda'i gilydd, i gyfarwyddo, ffilmio a golygu fideo Dysgu Proffesiynol dwyieithog i'r staff. Drwy gydweithio, llwyddodd y ddwy ysgol i ymrwymo i waith anghyfarwydd ac i fwrw ati â'r gwaith hwnnw, a gwnaethant ddechrau deall y problemau y mae disgyblion Mwyafrif Byd-eang yn eu hwynebu, ni waeth beth fo'r ddemograffeg neu'r cyfrwng iaith.

Ysgol Penyffordd

Gwnaethom gyfoethogi ein llyfrgell a'n mannau darllen y llynedd gan gyflwyno llyfrau gan amrywiaeth eang o awduron. Roedd yn bwysig i ni ymdrin â'r ffaith nad oedd y mwyafrif byd-eang wedi'i gynrychioli mewn ffordd gymesur mewn llyfrau plant. Roedd yn bwysicach nag erioed, yn ein barn ni, i bob un o'n disgyblion, ond yn enwedig ein lleiafrif bach o gefndiroedd ethnig amrywiol, gysylltu a theimlo eu bod yn cael eu cynrychioli. Yn ffodus, roedd dewis helaeth ar gael; mae cryn dipyn wedi newid ers cyhoeddi adroddiad Reflecting Realities gyntaf (CLPE).

Gallwch ddod o hyd i destunau fel y gyfres Diverse Voices, Asha and the Spirit Bird, Jasminder Bilan, Astro Girl, Ken Wilson-Max, Hidden Figures ac Ada Twist, Scientist, Andrea Beaty. Mae wedi helpu i lywio ein diwylliant darllen cadarn ac wedi ysgogi trafodaethau, diddordeb go iawn a brwdfrydedd.

Mae'r gynrychiolaeth amrywiol hon yn amod ym mhob rhan o'n gwaith – amlgyfrwng, y celfyddydau, llesiant, gwyddoniaeth a llenyddiaeth. Rydym yn dechrau ar daith tuag at amgylchedd dysgu mwy cefnogol a chynhwysol.

- Ystyriwch wneud cais am gyllid gan gronfa newydd Taith – cyllid gan Lywodraeth Cymru neu'r British Council i weithio gydag ysgol y tu allan i'r DU.

- Gwerthuswch eich trefniadau ar gyfer rhannu arferion da. Nid yw'n ddigon rhannu; mae'r cyfle i fyfyrio ar ymarfer eich cymheiriaid ac i bennu'r camau nesaf yr un mor bwysig (os nad yn bwysicach).

- Defnyddiwch rwydweithiau fel DARPL a BAMEed i greu cysylltiadau ag ysgolion sydd wedi gwneud cynnydd yn y meysydd yr hoffech chi ganolbwyntio arnynt.

- Defnyddiwch arbenigwyr allanol lle bynnag y bo'n bosibl. Gall clywed llais gwahanol gael mwy o effaith, bydd yn fwy cofiadwy a gallai arwain at gyfleoedd pellach i'ch ysgol. Penodwch Uwch-arweinydd dynodedig i gysylltu â darparwyr allanol, hyd yn oed os mai aelodau eraill o'r staff sy'n arwain y prosiectau.

- Edrychwch ar eich adnoddau addysgu a dysgu gan ystyried lluniau, enghreifftiau, astudiaethau achos, arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth – a ydynt yn cynrychioli'r Mwyafrif Byd-eang?

Diweddglo



Megis dechrau yw hyn; mae gwrth-hiliaeth yn waith caled ac yn waith o'r galon.

Bydd angen i bob un ohonom newid a sicrhau bod pawb yn teimlo eu Cynefin – y man personol lle maent yn perthyn yng Nghymru a'r byd.

DARPL
Diversity and Anti-Racist Professional Learning
Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

Diolch i

PARTNERIAETH

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyngor Abertawe Swansea Council

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

DARPL
Diversity and Anti-Racist Professional Learning
Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

Rhestr termau / Diffiniadau

(Haughton a Davis, 2022)

Amrywiaeth	Presenoldeb amrywiaeth eang o wahanol nodweddion mewn grwp o bobl neu sefydliad. Mae amrywiaeth yn cynnwys yr holl wahaniaethau rhwng pobl. Gall gynnwys ffactorau fel oedran, rhyw, hil, ethnigrwydd, gallu corfforol a deallusol, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir addysgol, statws economaidd-gymdeithasol ac arbenigedd. Mae hefyd yn ystyried gwahanol syniadau, safbwyntiau a gwerthoedd.
Braint pobl Wyn	Manteision cynhenid person Gwyn ar sail ei hil mewn cymdeithas wedi'i nodweddu gan anghydraddoldeb ac anghyfiawnder hiliol.
Cwricwlwm cudd	Y gwersi, y gwerthoedd a'r safbwyntiau anysgrifenedig, answyddogol, ac yn aml anfwriadol, y mae myfyrwyr yn eu dysgu yn yr ysgol.
Cynhwysiant	Galluogi pobl i gyfranogi'n llawn yn yr hyn a wnawn. Gwerthfawrogi a defnyddio ein gwahaniaethau unigryw mewn ffordd sy'n dangos parch tuag at yr unigolyn.
Dadwladychu	Proses sy'n anelu at 'ddadwladychu' neu ddadlunio strwythurau hanesyddol, a etifeddwyd o ganlyniad i Imperialaeth Brydeinig a gwladychiaeth. Mae'r dull gweithio hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff diwylliannau sy'n seiliedig ar degwch eu creu yn eich ymarfer proffesiynol.
Dibwyllo	Cyflwyno naratifau ffug sy'n annog person arall neu grwp o bob1 i amau eu canfyddiadau eu hunain o realiti, gan achosi o bosibl iddynt ddrysu neu beri gofid iddynt.
Gwahaniaethu	Trin aelodau o amrywiol grwpiau yn wahanol, yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig (oedran, anabledd, ailbennu rhyw dd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

DARPL
Diversity and Anti-Racist Professional Learning
Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

Rhestr termau / Diffiniadau

(Haughton a Davis, 2022)

Gwrth-hiliaeth	Yr ymrwymiad gweithredol i nodi achosion o hiliaeth a gwahaniaethu ar lefel ryngbersonol, sefydliadol a systemig a'u herio.
Hil	System gymdeithasol o gategoreiddio pobl, yn seiliedig ar ffactorau daearyddol, hanesyddol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal a nodweddion corfforol.
Hileiddio	Proses lie mae cymdeithasau yn llunio hiliau fel rhai real, gwahanol ac anghyfartal mewn ffyrdd pwysig sy'n effeithio ar fywyd economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol.
Hiliaeth	Rhagfarn, gwahaniaethu neu wrthwynebiaeth gan unigolyn neu sefydliad yn erbyn person neu bobl ar sail eu grwp hiliol neu ethnig, sydd fel arfer yn grwp lleiafrifol neu'n grwp a ymyleiddiwyd.
Hiliaeth ryngbersonol	Mae hiliaeth ryngbersonol yn cyfeirio at gredoau, agweddau a gweithredoedd unigolion sy'n cefnogi hiliaeth neu'n achosi i hiliaeth barhau. Gall hiliaeth ryngbersonol fod yn fwriadol, neu gallai'r unigolyn ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi i hiliaeth barhau neu'n cefnogi hiliaeth heb wybod mai dyna y mae'n ei wneud.
Hiliaeth sefydliadol	Mae hiliaeth sefydliadol yn cyfeirio'n benodol at y ffordd y mae polisTau ac arferion sefydliadol yn creu gwahanol ganlyniadau i wahanol grwpiau hiliol.
Microymosodiadau	Ymddygiad geiriol neu ddieiriau cynnil a mynych wedi'i anelu at aelod o grwp a ymyleiddiwyd, ac a gaiff effaith niweidiol, andwyol. Gall fod yn fwriadol neu'n anfwriadol.
Mwyafrif byd-eang	Term cyfunol yw mwyafrif byd-eang sydd, yn anad dim, yn siarad c'r unigolion hynny sydd o'r farn eu bod yn perthyn i'r mwyafrif byd-eang ac yn eu hannog i barhau i feddwl felly. Mae'n cyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd, Brown, tras ddeuol, sy'n hanu o ran ddeheuol y 6yd, a/neu sydd wedi cael eu hileiddio fel 'lleiafrifoedd ethnig'.

Rhestr termau / Diffiniadau

(Haughton a Davis, 2022)

Rhagfarn	Tuedd o blaid, neu yn erbyn, person neu grŵp yn seiliedig ar nodweddion personol neu stereoteipiau.
Rhagfarn ar sail cysylltiad	Pan fyddwch yn ddiarwybod yn ffafrio plant ac oedolion sy'n edrych / yn gwisgo / yn siarad fel chi neu sy'n dod o'r un dosbarth cymdeithasol â chi.
Rhagfarn ddiarwybod	Mae rhagfarn ddiarwybod yn cyfeirio at y rhagfarnau dwfn sy'n treiddio i bob un ohonom gan ein bod yn byw mewn cymdeithasau hynod anghyfartal. Gall rhagfarn ddiarwybod neu ymhlyg arwain at dybiaethau greddfol e.e. bod yn rhaid nyrs fod yn fenyw neu fod yn rhaid i beiriannydd fod yn ddyn.
Stereoteip	Tybiaeth gyffredin yn seiliedig ar bethau fel hil, lliw, tarddiad ethnig, gwlad wreiddiol, crefydd ac ati. Fel arfer, mae creu stereoteipiau yn golygu y caiff yr un nodweddion eu priodoli i bob aelod o grŵp ni waeth beth fo'r gwahaniaethau unigol rhyngddynt. Mae'r broses yn aml yn seiliedig ar gamsyniadau, gwybodaeth anghyflawn a/neu gyffredinoliadau ffug.
Tegwch	Y broses o sicrhau prosesau teg a diduedd, gan gydnabod nad yw pawb yn dechrau o'r un man a bod an-gen gwneud addasiadau er mwyn ymdrin ag anghydbwysedd.
Vignettes	Enghraifft gryno, astudiaeth achos, stori go iawn neu ailadrodd profiad, a ddefnyddir i egluro mater neu gyfle dysgu proffesiynol a myfyrio arno.

Rhestr Ddarllen

Llyfrau

Akala. (2019) Natives: Race & Class in the Ruins of Empire. UK: John Murray Press.

Asika, U. (2020) *Bringing up Race. How to raise a kind child in a prejudiced world.* Llundain: Yellow Kite.

Bhopal, K. (2018) *White Privilege. The Myth of a Post-Racial society*. Y DU: Policy Press.

Brown, B (1998) *Unlearning Discrimination in the early years*. Trentham Books

Chattoo, S., Atkin, K., Craig, G. and Flynn, R. (2019) *Understanding 'Race' and Ethnicity. Theory, History, Policy, Practice. 2IL argraffiad*. Y DU: Policy Press.

Crenshaw, K.W. ed., 2019. *Seeing race again: Countering colorblindness across the disciplines*. Univ of California Press.

Daynes, K and Akpajaro, J (2021) *What is Racism (Lift-the-flap-book)*. Llundain: Usborne Publishing

Diangelo, R (2019) *White Fragility: why it's so hard for white people to talk about racism*. Llundain: Penguin

Eddo-Lodge, R (2018) *Why I'm No Longer Talking (to white people) About Race*. Llundain: Bloomsbury

Jewell, T (2020) *This Book is Anti-Racist*. Llundain: FLCB

Kendall, M (2020) *Hood Feminism: Notes from the Women that a Movement Forgot*. New York: Penguin.

Olusoga, D. (2016) *Black and British. A Forgotten History*. Llundain: Pan MacMillan.

Rutherford, A. (2020) *How to Argue with a Racist. History, Science, Race and Reality*. Llundain: Weidenfeld and Nicolas.

Sanghera, S. (2021) *Empireland. How Imperialism Has Shaped Modern Britain*. Llundain: Penguin. ISBN 0241445310

Dogfennau Diddorol

Addressing Inclusion https://respectme.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/Addressing-Inclusion-EffectivelyChallenging-Racism-in-Schools.pdf

An Introduction to Anti-Racist Curriculum Development: A Guide for Teachers in Scotland https://www.crer.org.uk/anti-racist-curriculum

Anti-Racist Curriculum Project in Scotland https://www.enhancementthemes.ac.uk/resilient-learning-communities/equalitydiversity-and-inclusion/anti-racist-curriculum-project

Engaging Effectively with Black and Minority Ethnic Parents in Children's and Parental Services https://dera.ioe.ac.uk/6735/2/DCSF-RR013.pdf

Pecyn Cymorth i Ymarferwyr Cyngor y Gweithlu Addysg – Canllaw Ymarfer Da Mynd i'r Afael â Hiliaeth https://ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/canllawiauymarfer-da/canllaw-arfer-da-mynd-i-r-afael-a-hiliaeth.html

Promoting and Developing Race, Equity and Anti-Racist Education: An Overview https://education.gov.scot/media/e1ykcihd/promoting-and-developing-race-equality-andanti-racist-education.pdf

DARPL
Diversity and Anti-Racist Professional Learning
Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

Rhestr Ddarllen

Erthyglau a Chyfnodolion

Banks, J.A., 2007. Approaches to multicultural curriculum reform. Multicultural education: Issues and perspectives, 6, pp.247-266.

Barnardos, (2021) How systemic racism affects young people in the UK. Ar gael yn:
https://www.barnardos.org.uk

Cynghrair Hil Cymru (2021) Dangoswch Inni Ei Bod o Bwys Ichi.
https://racealliance.wales/wp-content/uploads/2021/04/Show-Us-You-Care-Full-Report1.pdf

Cyngor y Gweithlu Addysg (2021) Cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu ysgolion, Adroddiad Cam 3. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Davis, S., Haughton, C et al (2021) Recriwtio a Chadw Athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Ar gael ar-lein yn:
https://hwb.gov.wales/api/storage/8f9b8bcf-3552-4047-9a14-f1fe23f0f026/adroddiad-arbrofiadau-byw-athrawon-ac-arwein-wyr-ysgolion-canol-ac-uwch-o-gefndiroeddlleiafrifoedd-ethnig.pdf

Frontiers in Sociology. Race and Ethnicity
https://www.frontiersin.org/journals/sociology/sections/race-and-ethnicity

Journal of Racial and Ethnic Studies. Taylor and Francis
https://www.tandfonline.com/journals/rers20

Joseph-Salisbury R. (2020) Race and racism in English secondary schools. Ymddiriedolaeth Runnymead. Ar gael yn:
www.runnymedetrust.org/uploads/publications/pdfs/Runnymede%20Secondary%20Schools%20report%20FINAL.pdf

Llywodraeth Cymru (2021) Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Ar gael ar-lein yn:
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/cynllun-gweithreducydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol.pdf

Llywodraeth Cymru (2021) Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac
Ethnig Leiafrifol. Ar gael ar-lein yn:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedaucyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafri-foedd-ethnig-cwricwlwm-newyddadroddiad-terfynol.pdf

Sociology of Race and Ethnicity, Sage
https://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&ved=2ahUKEwjX0pSV0fn7AhXObMAKHQMTAlwQFnoE-CA0QAQ&url=https%3A%2F%2Fjournals.sagepub.com%2Fhome%2Fsre&usg=AOvVaw3fOtyVZoC1FVd08wc1t896

Sturdivant, T. (2021) When I re-created the famous doll test that looked at how black kids see race. Ar gael ar-lein yn:
https://theconversation.com/what-i-learned-when-irecreated-the-famous-doll-test-that-looked-at-how-black-kids-see-race-153780

Gwefannau

https://darpl.org/

https://darpl.cymru/

https://childreninwales.org.uk/cy/

https://www.childcomwales.org.uk

https://www.bameedwales.org/resources

https://racealliance.wales/

https://racecouncilcymru.org.uk/

https://www.theredcard.org/wales

https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/bly-nyddoedd-cynnar-a-gofal-plant

https://theblackcurriculum.com/

DARPL
Diversity and Anti-Racist Professional Learning
Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol